Cyd-gyngor Cymwysterau

AQA City & Guilds CCEA Edexcel OCR SQA CBAC

Cynhyrchwyd ar ran: AQA, CCEA, Edexcel, OCR a CBAC

Hysbysiad i Ganolfannau

Rhyddhau Canlyniadau Cymwysterau Cyffredinol

Arholiadau Mehefin 2011

Cyfyngu ar Ryddhau Canlyniadau - canolfannau'n unig

Bydd copïau electronig o ganlyniadau ar gael i ganolfannau, naill ai trwy ddulliau diogel ar safleoedd allrwyd cyrff dyfarnu neu ar gludwyr EDI fel a ganlyn:

Dyddiad	Cymwysterau
0001 awr ar ddydd Mercher 17 Awst 2011	TAG, FSMQ, DUE, Project Estynedig Unedau Prif Ddysgu Lefel 3
0001 awr ar ddydd Mercher 24 Awst 2011	TGAU, TLM Unedau Prif Ddysgu Lefel 1 a 2 Projectau

Gofynnir i chi nodi nad yw'r cyrff dyfarnu i gyd yn cyhoeddi canlyniadau EDI ar gyfer pob cymhwyster.

Cyhoeddir y canlyniadau hyn ond ar y ddealltwriaeth bod y ffeiliau canlyniadau a'u cynnwys yn aros yn gyfangwbl gyfrinachol i bennaeth y ganolfan, staff y swyddfa arholiadau a'r staff addysgu hynny yn y ganolfan neu'r consortiwm y mae angen iddynt, ym marn pennaeth y ganolfan, fod yn ymwybodol o'r wybodaeth.

Ni ellir datgelu na thrafod y canlyniadau hyn a'r wybodaeth sy'n deillio ohonynt gyda'r canlynol:

- **athrawon eraill**
- **ymgeiswyr na rhieni**
- **sefydliadau addysgol ac Awdurdodau Lleol**
- **y wasg**
- **unrhyw unigolion eraill**

Ni ddylid rhannu data canlyniadau'n ehangach tan y bydd yr ymgeiswyr wedi derbyn eu canlyniadau hwythau.

Dylai canolfannau dalu sylw i'r ffaith mai canlyniadau rhagarweiniol yw'r rhain ac y gellir eu newid trwy'r gwasanaethau ymholiadau am ganlyniadau cyhoeddedig.

Defnyddio ffeiliau canlyniadau electronig

Gan nad yw'r cyrff dyfarnu bellach yn darparu canlyniadau rhagarweiniol ar bapur, bydd angen i'r canolfannau ddefnyddio'r data electronig i baratoi'r wybodaeth fydd yn cael ei rhyddhau i'r ymgeiswyr.

Dylid nodi bod llawer o'r pecynnau MIS yn caniatáu i'r canolfannau goladu ffeiliau canlyniadau electronig o bob un o'r cyrff dyfarnu er mwyn cynhyrchu un datganiad canlyniadau rhagarweiniol cyflawn i bob ymgeisydd.

Os bydd angen i ymgeiswyr ddarparu eu canlyniadau rhagarweiniol i drydydd person, fel Colegau Chweched Dosbarth neu AB, argymhellir fod datganiadau o ganlyniadau rhagarweiniol yr ymgeiswyr yn cael eu hargraffu ar bapur pennawd yr ysgol a/neu'n cael eu stampio ag enw a logo'r ysgol.

Rhyddhau canlyniadau i'r ymgeiswyr

Gellir rhyddhau canlyniadau i'r ymgeiswyr fel a ganlyn:

Dyddiad	Cymwysterau
0600 awr ar ddydd Iau 18 Awst 2011	**TAG, FSMQ, DUE, Project Estynedig Unedau Prif Ddysgu Lefel 3**
0600 awr ar ddydd Iau 25 Awst 2011	**TGAU, TLM Unedau Prif Ddysgu Lefel 1 a 2 Projectau**

Gellir ond anfon canlyniadau at ymgeiswyr i gyrraedd **ar ôl 0600 awr** ar ddyddiad priodol cyhoeddi'r canlyniadau. **Ni ddylai ymgeiswyr dderbyn canlyniadau, trwy'r post neu fel arall, cyn yr amser hwn.** Cedwir yr hawl gan y cyrff dyfarnu i dynnu'n ôl y consesiwn arbennig o ddarparu gwybodaeth gynnar am ganlyniadau yn electronig i unrhyw ganolfan a geir yn torri'r gofynion hyn.

Colegau Chweched Dosbarth ac AB

Bydd myfyrwyr yn cyflenwi canlyniadau wedi'u hardystio gan ganolfannau i golegau Chweched Dosbarth ac AB i bwrpasau ymrestru, e.e. canlyniadau wedi'u hargraffu ar bapur pennawd a/neu wedi'u stampio ag enw a logo'r ysgol. **Nid oes gwahaniaeth rhwng y data canlyniadau rhagarweiniol sy'n cael eu cynhyrchu o safle allrwyd corff dyfarnu a'r hyn sy'n cael ei gynhyrchu trwy becyn MIS y ganolfan (a fydd ym mwyafrif yr achosion yn rhestru canlyniadau pob corff dyfarnu).** Rhaid cofio mai rhagarweiniol yw'r canlyniadau hyn, gallan nhw newid.

Os oes amheuaeth, dylai colegau chweched dosbarth ac AB gysylltu ag ysgolion i gael gwybod am ganlyniadau'r ymgeisydd neu gallant ofyn i'r ymgeisydd am ei d/thystysgrifau, unwaith y byddan nhw wedi'u dosbarthu. Y dystysgrif yw cofnod terfynol cyflawniad yr ymgeisydd.

CGC ©2011